# <u>Bugail a Gweithiwr Ystâd</u>

**Cyflog: Rhagwelir y bydd rhwng £22,000-£28,000, yn unol â phrofiad**

**Oriau: 37.5 awr yr wythnos**

**Lleoliad: Ystâd Elan, Pentref Elan, Rhaeadr, Powys, LD6 5HP**

**Trosolwg Swydd:** Mae Ymddiriedolaeth Cwm Elan (a adnabyddir yn ffurfiol fel Ymddiriedolaeth Elan Dŵr Cymru, Rhif Elusen 1001347) yn bwriadu penodi Gweithiwr Ystâd gyda chyfrifoldebau da byw.

Mae dwy ran i'r swydd gyda dyletswyddau fel bugail/person da byw ar gyfer un o'n tyddynnod, ynghyd ag oriau penodol fel gweithiwr ystâd cyffredinol.

Fe fydd y tasgau ffermio yn cynnwys:

- Bugeilio o ddydd i ddydd ar un o'n tyddynnod yn y bryniau.
- Cynorthwyo gyda chasglu ar dyddynnod cyfagos fel bo angen yn unol ag arferion bryniau.
- Cynorthwyo gyda chasglu a thrin da byw gan gynnwys gwartheg ar y tyddynnod eraill.
- Profi dulliau newydd er mwyn hyrwyddo cadwraeth natur a bioamrywiaeth o fewn y fferm.

Fe all tasgiau ar yr ystâd gynnwys:

- Ffensio
- Gwaith llif gadwyn
- Cynnal a chadw llwybrau a meysydd parcio
- Peintio
- Dyletswyddau gofalwr

Fe fydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn chwaraewr tîm, cyfathrebwr rhagorol, gydag agwedd 'gall wneud', sy'n gallu dangos sgiliau rhyngbersonol da ynghyd â brwdfrydedd i ffermio mewn ardal ucheldir er budd natur.

**Cyd-destun swydd:** Elusen gofrestredig yw Ymddiriedolaeth Elan Dŵr Cymru (Ymddiriedolaeth Cwm Elan), a chafodd ei sefydlu gan Dŵr Cymru Welsh Water ym mis Hydref 1989 er mewn rheoli'r rhan fwyaf o'r 50,000 erw ar Ystâd Elan yng Nghanolbarth Cymru yn rhinwedd prydles 999 mlynedd am rent rhad.

Cwm Elan Cyf. yw'r unig ymddiriedolwr corfforaethol o'r elusen. Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn gwneud penderfyniadau ar ran yr elusen. Mae wyth Cyfarwyddwr ar hyn o bryd.

Amcanion yr Elusen yw i gofleidio cadwraeth natur a thirweddd, mynediad cyhoeddus a hamdden, addysg ac amcanion elusennol eraill.

Mae’r Ystâd wedi’i lleoli yng nghanol Mynyddoedd Cambria i’r gorllewin o dref farchnad Rhaeadr, ac yn ffurfio tiroedd casglu ar yr ucheldir o gwmpas cronfeydd dŵr yng Nghwm Elan a Dyffryn Claerwen sy’n cyflenwi dŵr yn bennaf i Ganolbarth Lloegr ond hefyd i rannau o Ganolbarth a De Cymru.

**Dyddiad Cau: 3ydd o Ebrill 2023**

## DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| ***Teitl Swydd:*** | **Bugail a Gweithiwr Ystâd** |
| *Atebol i:* | Asiant Tir/Rheolwr Ystâd |
| *Cytundeb* | 37.5 awr yr wythnos<br>Cytundeb Parhaol |

*Noder: Disgrifiadau bras yw’r rhain o’r mathau o ddyletswyddau/gweithgareddau a ddisgylwir ar y lefel hon, at ddibenion enghreifftiol.*

**<u>Prif Gyfrifoldebau:</u>**
Fel aelod o dîm ystâd yr Ymddiriedolaeth, fe fydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cyfrannu tuag at swyddogaethau dyddiol ar yr ystâd a menter ffermio mewn llaw.

Bydd prif meysydd yn cynnwys ymwneud â’r da byw yn un o’n tyddynnod a gwaith cynnal a chadw ar draws yr ystâd.

<u>**Tasgau Nodweddiadol a Chyfrifoldebau Cyffredinol**</u>

## 1.1 Ffermio

**1.1.1** Cyfrannu at ffermio a rheoli yn un o'n tyddynnod gan gynnwys trin a thrafod defaid a gwartheg.

**1.1.2** Chwarae eich rhan yn y tîm ffermio i gyrraedd y nodau a'r targedau amser ar gyfer yr holl ffermydd a gweithgareddau.

1.1.3 Gwaith tractor fel bo'r angen.

1.1.4 Mynd â'r da byw yn ôl ac ymlaen o'r farchnad/tac gaeaf.

## 1.2 Cynnal a Chadw ar yr Ystâd

1.2.1 Ymgymryd â gwaith ffensio – rhai newydd ac atgyweiriadau.

1.2.2 Gwaith gwrychoedd

1.2.3 Y gallu i gwblhau gwaith gyda llif gadwyn mewn amrywiaeth o gyflwr.

1.2.4 Cynnal a chadw llwybrau a meysydd parcio

1.2.5 Peintio asedau'r ystâd gan gynnwys ffensys, ac arwyddion

1.2.6 Gwaith gofalwr ym mythynnod gwyliau'r Ystâd,

1.2.7 Tasgiau amrywiol tasgmon

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr a gellir ei haddasu yn amodol ar brofiad ac arbenigedd yr ymgeisydd.

# MANYLEB PERSON

## **Teitl Swydd:** Bugail a Gweithiwr Ystâd

Nodir bod y manylebau isod yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer y swydd hon:

| **Cymwysterau** | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Trwydded yrru lawn, o ddewis yn lân gyda mynediad at gerbyd | ü | |
| Tystysgrifau mewn hwsmonaeth da byw, ffermio a rheoli pori | | ü |
| Unrhyw hyfforddiant, cymwysterau a thystysgrifau mewn meysydd cysylltiedig â chynnal a chadw gan gynnwys gwaith coed a phlymio, ayyb | | ü |
| **Sgiliau, Gwybodaeth a Phrofiad** | | |
| Gwybodaeth sylfaenol dda am bob agwedd ar hwsmonaeth defaid | ü | |
| Profiad o weithio a thrin defaid yn ddelfrydol mewn amgylchedd yr ucheldir | ü | |
| Gwybodaeth sylfaenol dda ar bob agwedd ar hwsmonaeth gwartheg | ü | |
| Rhywfaint o brofiad o weithio gyda gwartheg | | ü |
| Gwybodaeth am ofynion cadw cofnodion hanfodol | | ü |
| Tystysgrifau eistedd ar ATV a Moduron Gyrriant 4x4 | ü | |
| Dealltwriaeth dda o reoli tir amaethyddol a chadwraeth | ü | |
| Gwybodaeth ecolegol berthnasol yn ymwneud â phori fel dull rheoli | | ü |
| Hyfedr a chymwys mewn amrywiaeth o dasgau rheoli tir sy'n ymwneud â'r gwaith pori | | ü |
| Profiad o ddefnyddio offer megis strimwyr, torwyr brwyn a llif gadwyn ynghyd â'r tysysgrifau perthnasol | ü | |

| | | |
|---|---|---|
| Profiad o ffensio | ü | |
| Gwybodaeth a phrofiad o blygu gwrychoedd | | ü |
| Yn berchen ar gŵn defaid sy’n gweithio | ü | |
| **Rhinweddau Personol** | | |
| Y gallu i weithio’n effeithiol gyda phobl o ystod eang o ddisgyblaethau | ü | |
| Gallu gweithio ar y cyd fel rhan o dîm | ü | |
| Gallu gweithio’n effeithiol dan bwysau | ü | |
| Hunan gymhelliant | ü | |
| Iaith Gymraeg Lefel A1 neu well: Y gallu i gyflwyno’ch hun ac eraill, y gallu i ofyn ac i ateb cwestiynau am wybodaeth sylfaenol e.e. ble mae rhywun yn byw a gweithio, beth yw eu diddordebau, trafod manylion personol, amser a rhifau neu’r parodrwydd i gyrraedd y lefel hwn o fewn 24 mis o apwyntiad | | ü |

## Cais a’r Broses Cyfweliad

Rhaid i’ch cais fod ar ffurf CV gyda llythyr eglurhaol, a rhaid iddo gyrraedd Rheolwr yr Ystâd trwy e-bost neu bost erbyn dim hwyrach na **12yp Dydd Llun 3ydd o Ebrill 2023.** Rhowch er sylw i: Charlotte Harley, Rheolwr yr Ystâd a’i e-bostio at recruitment@elanvalley.org.uk neu bostiwch i Swyddfa Ystâd Cwm Elan, Pentref Elan, Rhaeadr, Powys, LD6 5HP.

A wnewch hefyd gynnwys enwau, cyfeiriadau (gan gynnwys cyfeiriad e-bost, os ar gael) dau ganolwr y gallwn gysylltu â nhw.

Hefyd, rhowch eich enw llawn,rhif ffôn a chyfeiriad post a/neu gyfeiriad eletcronig fel y gallwn cadarnhau derbyn eich cais.

**Cyfweliad:** Bydd y Bwrdd Dethol fel arfer yn cynnwys dau gyfwelydd a fydd yn eich holi’n bennaf mewn cysylltiad â’ch profiad academaidd a/neu brofiad gwaith a’ch cyflawniadau

cysylltiedg â swydd.  Prif nod y Bwrdd Dethol fydd cael cipolwg ar eich gallu i gyflawni'r swydd yn effeithiol ac effeithlon.  Efallai y gofynnir i chi hefyd ymgymryd â thasg fel rhan o'ch cyfweliad, a bydd yr union fanylion yn cael eu cadarnhau.  Cynigir y swydd i'r ymgeisydd llwyddiannus yn amodol ar eirdaon boddhaol a gofynnir hefyd i ddarparu:

- Cadarnhad o'r Hawl i Weithio (Pasbort DU neu Fisa Gwaith.
- Bydd disgwyl iddynt wedyn ddechrau yn y swydd cyn gynted â phosibl wedi hynny.

**Cyfle Cyfartal:**  Rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau o bob grŵp oedran ac adran yn y Gymuned. Yn unol â'r gyfraith, ni fydd unrhyw ymgeisydd am benodiad staff neu aelod o staff yn cael ei drin yn llai ffarfiol nag un arall.  Bydd cyflogaeth o fewn Ymddiriedolaeth Cwm Elan a dilyniant o fewn cyflogaeth yn cael ei bennu yn unig ar deilyngdod personol a'r gallu i gwblhau'r swydd.  Rydym yn gwneud hyn drwy gymhwyso meini prawf sy'n ymwneud â dyletswyddau ac amodau pob swydd benodol ac anghenion y sefydliad dan sylw.

Byddwn yn ystyried ceisiadau am gyflogaeth ar sail gweithio rhan amser, rhannu swydd neu ffyrdd eraill hyblyg o weithio, hyd yn oed os hysbysebir y swydd yn llawn amser, oni bai bod rhesymau gweithredol neu wrthrychol eraill pam nad yw'n bosibl gwneud hynny.

**Prif amodau cyflogaeth**

**Teitl swydd:** **Bugail a Gweithiwr Ystâd**

**Dyddiad dechrau cyflogaeth:** Cyn gynted â phosibl

**Lleoliad y gwaith:** Ystâd Elan, Pentref Elan, Rhaeadr, Powys, LD6 5HP

**Cyflog:** Rhagwelir rhwng £22,000-£28,000, yn gymesur â phrofiad

**Pensiwn:** Mae gan yr ymgeisydd hawl i ymuno â chynllun Pensiwn Ymddiriedolaeth Cwm Elan

**Cyfnod Prawf:** Mae'r swydd hon yn amodol ar gyfnod prawf o **chwech mis**

**Hyd:** Parhaol

**Oriau:** **37.5 awr yr wythnos,** ond fe fydd yr oriau gwaith yn hyblyg ac yn cynnwys gwaith nos a gwaith penwythnos rheolaidd. Caniateir amser i ffwrdd yn lle gwaith goramser. Gellir trafod llai o oriau.

**Gwyliau blynyddol:** Yr hawl i wyliau blynyddol yw **23 diwrnod y flwyddyn** (pro rata ar gyfer rhan amser), yn codi i uchafswm o

28 diwrnod, ynghyd â gwyliau cyhoeddus statudol.

**Defnydd o gerbyd:** Gellir hawlio costau defnydd eich cerbyd eich hun ar gyfradd milltiredd gyfredol Ymddiriedolaeth Cwm Elan

**Dyddiad cau: 12yp ar Ddydd Llun 3ydd o Ebrill 2023**

**Cyfweliad:** Gwahoddir gyfweliadau o fewn pythefnos i'r dyddiad cau